# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

# Araith y Frenhines 2015

Mehefin 2015

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Ymchwil@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddYmchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/1307
Rhif dogfen:15/027

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Crynodeb o Fil

# Araith y Frenhines 2015

Mehefin 2015

Alys Thomas a Steve Boyce

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **1**

**1. Biliau Cyfansoddiadol** ..... **2**

1.1. Bil Cymru ..... 2
1.2. Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ..... 3
1.3. Bil yr Alban ..... 3
1.4. Bil Gogledd Iwerddon (Cytundeb Tŷ Stormont) ..... 4
1.5. Bil Datganoli Dinasoedd a Llywodraeth Leol ..... 6
1.6. Bil Pleidlais am Oes ..... 6
1.7. Cynigion ar gyfer Bil Hawliau Prydeinig ..... 7
1.8. Pleidleisiau Lloegr ar gyfer Cyfreithiau Lloegr ..... 7

**2. Biliau eraill** ..... **9**

2.1. Bil Banc Lloegr ..... 9
2.2. Bil Rheilffordd Cyflymder Uchel (Llundain – Gorllewin Canolbarth Lloegr) ..... 9
2.3. Bil Menter ..... 9
2.4. Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyllid ..... 10
2.5. Bil Mewnfudo ..... 11
2.6. Bil Eithafiaeth ..... 11
2.7. Bil Plismona a Chyfiawnder Troseddol ..... 12
2.8. Bil y Lluoedd Arfog ..... 14
2.9. Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol) ..... 14
2.10. Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cyllid) ..... 15
2.11. Bil Cyflogaeth Lawn a Budd-daliadau Lles ..... 15
2.12. Bil Undebau Llafur ..... 17
2.13. Bil Ynni ..... 17
2.14. Bil Pwerau Ymchwilio ..... 19
2.15. Bil Sylweddau Seicoweithredol ..... 20

**3. Biliau nad ydynt yn gymwys yng Nghymru** ..... **21**

# Araith y Frenhines 2015

## Cyflwyniad

Traddodwyd Araith y Frenhines 2015 i'r Senedd ar 27 Mai 2015, yn sgil yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7 Mai. Roedd yn cynnwys manylion ynghylch bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno amryw o Filiau yn ystod Sesiwn 2015-16 y Senedd.

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb byr o'r Biliau a geir yn Araith y Frenhines 2015, ynghyd â manylion am y Biliau a gariwyd drosodd o'r sesiwn flaenorol, gyda phwyslais arbennig ar y cynigion hynny sy'n effeithio ar Gymru mewn meysydd sydd wedi eu datganoli.

Mae'r papur hwn yn cael ei baratoi ar gyfer Aelodau'r Cynulliad cyn y ddadl cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines ar **24 Mehefin 2015.**

# 1. Biliau Cyfansoddiadol

## *1.1. Bil Cymru*

Bydd Bil Cymru yn deddfu ar gynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a nodwyd yn ei phapur polisi ***Pwerau at Bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru*** ym mis Chwefror 2015. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o argymhellion ail adroddiad Comisiwn Silk ar ddatganoli yng Nghymru ar bwerau newydd i Gymru a symudiad tuag at **fodel cadw pwerau datganoli**. Bydd y Bil hefyd yn gweithredu rhai o argymhellion Comisiwn Smith ar bwerau i'r Alban y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn credu eu bod yn briodol i Gymru.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Model cadw pwerau newydd ar gyfer datganoli yng Nghymru, gan gynnwys rhestr o bolisïau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer Senedd y Deyrnas Unedig.
- Pwerau wedi eu datganoli i Weinidogion Cymru dros gydsynio â datblygiadau ynni yng Nghymru hyd at 350 Megawat ar gyfer prosiectau ar y tir ac ar y môr.
- Pwerau wedi eu datganoli i'r Cynulliad dros borthladdoedd, rheoleiddio tacsis, cofrestru gwasanaethau bysiau, cyfyngiadau cyflymder, a gwasanaethau carthffosiaeth yng Nghymru.
- Datganoli trwyddedu ar gyfer chwilio am olew a nwy ar y tir i Gymru, gan alluogi Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu a fydd chwilio am olew a nwy siâl yn digwydd yng Nghymru.
- Trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol dros etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru, gan alluogi'r Cynulliad i benderfynu a ddylai pobl 16 ac 17 oed bleidleisio yn yr etholiadau hynny.
- Darpariaethau i osod sefydlogrwydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ar sail statudol ac ymgorffori'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn gyfreithiol.
- Byddai'r Bil yn datganoli rheolaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol dros ei faterion ei hun, gan gynnwys yr hyn y dylid ei alw, ei faint a'r system etholiadol a ddefnyddir i ethol ei Aelodau.
- Byddai'r Bil yn gweithredu'r cynigion anghyllidol hynny yng Nghomisiwn Smith sy'n briodol i'w datblygu yng Nghymru.

Bydd darpariaethau yn ymestyn i'r Deyrnas Unedig ond byddai'r rhan fwyaf **yn gymwys i Gymru yn unig.**

## *1.2. Bil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd*

Diben y Bil yw **galluogi refferendwm** i ganiatáu i'r etholwyr gael pleidlais mewn-allan ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd cyn diwedd 2017.

Cyhoeddwyd y Bil ar 28 Mai 2015.

Mae Cymal 1 yn darparu modd i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu dyddiad ar gyfer y refferendwm, na ddylai fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2017, drwy reoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Y cwestiwn fydd yn ymddangos ar y papurau pleidleisio fydd "**A ddylai'r Deyrnas Unedig ddal i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?**"

Yr etholwyr yw:

- Dinasyddion Prydain, Iwerddon a'r Gymanwlad dros 18 oed sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, a Gwladolion y Deyrnas Unedig sydd wedi preswylio dramor am lai na 15 mlynedd, ar yr amod eu bod yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr Seneddol.
- Caiff arglwyddi, sydd wedi eu hanghymwyso gan y gyfraith gyffredin rhag pleidleisio mewn etholiadau Seneddol, bleidleisio yn y refferendwm os, ar ddyddiad y refferendwm, bydd ganddynt hawl i bleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol (mae hyn hefyd yn berthnasol i arglwyddi sydd wedi byw dramor am 15 mlynedd.
- Dinasyddion y Gymanwlad a fyddai, ar ddyddiad y refferendwm, yn meddu ar yr hawl i bleidleisio yn Gibraltar mewn etholiad Senedd Ewrop.

Mae polisi tramor a chyfansoddiadol yn **faterion a gadwyd yn ôl (ledled y Deyrnas Unedig).**

Cafodd y Bil ei **Ail Ddarlleniad** ar **9 Mehefin 2015**.

## *1.3. Bil yr Alban*

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno Bil yr Alban y mae'n dweud ei fod yn adlewyrchu'r ymrwymiad i ragor o ddatganoli pwerau ar gyfer yr Alban cyn y refferendwm annibyniaeth ym mis Medi 2014, ac argymhellion Cytundeb Comisiwn Smith ym mis Tachwedd 2014.

Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf ar 28 Mai 2015. Cafodd y Bil ei **Ail Ddarlleniad** ar **8 Mehefin 2015**.

Prif elfennau'r Bil yw:

**Pwerau trethu newydd**

- Byddai'r Bil yn galluogi Senedd yr Alban i osod trothwyon a chyfraddau treth incwm ar enillion yn yr Alban a chadw'r holl arian a godir yn yr Alban. Byddai'r Bil yn darparu deg pwynt canran cyntaf refeniw TAW ar y gyfradd safonol a godwyd yn yr Alban i Senedd yr Alban (a chyfradd is o 2.5%).
- Byddai'r Bil hefyd yn datganoli'r cyfrifoldeb dros Doll Teithwyr Awyr a'r Ardoll Agregau i Senedd yr Alban.
- Byddai Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a'r Alban hefyd yn cytuno ar bwerau benthyca ychwanegol fel rhan o fframwaith cyllidol newydd ar gyfer yr Alban.

**Pwerau lles newydd**

- Byddai Senedd yr Alban yn cael gwerth tua £2.5 biliwn o bwerau lles newydd.
- Byddai'r Bil yn caniatáu i Lywodraeth yr Alban amrywio amlder y taliadau Credyd Cynhwysol yn yr Alban.
- Byddai'r Bil yn rhoi'r pŵer i Senedd yr Alban bennu rheolau dros amrywiaeth o fudd-daliadau sy'n effeithio ar ofalwyr, pobl anabl, pobl hŷn a rheoli rhaglenni sy'n helpu pobl i ddod o hyd i waith.

**Fframwaith cyllidol**

- Er mwyn gweithredu Comisiwn Smith, bydd fframwaith cyllidol newydd ar gyfer yr Alban yn cael ei drafod ochr yn ochr â'r Bil. Dylai hyn sicrhau bod yr Alban yn mwynhau manteision gwneud penderfyniadau economaidd yn nes at adref o fewn system gadarn a diogel yn y Deyrnas Unedig ac arian cyfred a rennir yn y Deyrnas Unedig.
- Byddai fformiwla Barnett yn cael ei chadw ond byddai'n cyfrif am gyfran lai o refeniw Senedd yr Alban gan y byddai mwy na'i hanner yn cael ei chodi yn awr drwy benderfyniadau treth a wneir yn Holyrood.

Byddai'r Bil **yn gymwys yn yr Alban**.

## *1.4. Bil Gogledd Iwerddon (Cytundeb Tŷ Stormont)*

Bydd y Bil yn gweithredu **Cytundeb Tŷ Stormont yng Ngogledd Iwerddon**, gan gynnwys sefydlu Uned Ymchwiliadau Hanesyddol, ac Archif Hanes Llafar. Byddai corff ychwanegol yn y Bil, y Comisiwn Annibynnol ar gyfer Adalw Gwybodaeth, yn cael ei sefydlu gan gytundeb rhyngwladol rhwng Llywodraethau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Prif elfennau'r Bil yw:

**Uned Ymchwiliadau Hanesyddol**

- Byddai'r Bil yn creu corff annibynnol newydd, yr Uned Ymchwiliadau Hanesyddol, a fyddai'n gyfrifol am fwrw ymlaen ag ymchwiliadau heb eu terfynu i farwolaethau heb eu datrys sy'n gysylltiedig â'r Helyntion, boed hynny'n ymwneud â gweithgarwch troseddol neu honiadau o gamymddwyn gan yr heddlu. Byddai'r Uned hefyd yn ail-ymchwilio i farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r Helyntion a nodwyd yn adroddiad 2013 Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi fel rhai sydd angen eu hymchwilio.
- Byddai'r Bil yn sefydlu staff ymroddedig cymorth i deuluoedd i ddarparu cefnogaeth a chyngor arbenigol drwy gydol y broses i berthnasau agosaf.
- Byddai'r Bil yn ymrwymo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatgelu deunydd perthnasol yn llawn i'r Uned at ddiben ei hymchwiliadau.
- Byddai'r Bil yn darparu ar gyfer mesurau sy'n cyfateb i'r rhai sy'n berthnasol ar hyn o bryd i gyrff sydd eisoes yn bodoli er mwyn atal unrhyw ddatgeliad gwybodaeth niweidiol gan yr Uned, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw unigolyn yn cael ei roi mewn perygl a bod dyletswydd y Llywodraeth i gadw pobl yn ddiogel a saff yn cael ei chadarnhau.
- Comisiwn Annibynnol ar gyfer Adalw Gwybodaeth
- Byddai'r Bil yn galluogi corff trawsffiniol annibynnol newydd, y Comisiwn Annibynnol ar gyfer Adalw Gwybodaeth, a fyddai'n cael ei sefydlu drwy gytundeb rhyngwladol rhwng Llywodraethau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon.
- Byddai'r Bil yn galluogi dioddefwyr a goroeswyr i chwilio, a derbyn, gwybodaeth breifat am farwolaethau perthynas agosaf a oedd yn gysylltiedig â'r Helyntion, drwy'r Comisiwn.
- Byddai'r Bil yn sicrhau na fyddai gwybodaeth a ddarparwyd i'r Comisiwn yn dderbyniol mewn achosion llys.

**Archif Hanes Llafar**

- Byddai'r Bil yn creu Archif Hanes Llafar annibynnol newydd fel lle canolog i unigolion o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon i rannu profiadau a naratifau yn gysylltiedig â'r Helyntion.
- Byddai'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynhyrchu llinell amser hanesyddol ffeithiol a dadansoddiad ystadegol o'r Helyntion, dan arweiniad academyddion.

Byddai'r Bil yn ymestyn i'r Deyrnas Unedig. Byddai'r ddeddfwriaeth yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon yn bennaf ac yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon yn bennaf, ond byddai rhai darpariaethau - fel annerbynioldeb gwybodaeth a ddarperir i'r Comisiwn, a darpariaethau ynghylch ymchwiliad yr Uned

Ymchwiliadau Hanesyddol i farwolaethau hanesyddol - yn berthnasol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datgan y bydd yn ymgysylltu â'r weinyddiaeth ddatganoledig yn ôl yr angen ar y materion hyn. Yn ogystal, byddai angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â meysydd lle mae'r pwerau wedi eu datganoli.

## *1.5. Bil Datganoli Dinasoedd a Llywodraeth Leol*

Nodwyd yn Araith y Frenhines "Legislation will be introduced to provide for the **devolution of powers to cities with elected metro mayors**, helping to build a Northern Powerhouse."

Ynghyd â phwerau presennol dan *Ddeddf Lleoliaeth 2011*, byddai'r Bil hefyd yn galluogi Llywodraeth y Deyrnas Unedig i roi grym i drefi a siroedd, gan adeiladu ar y rhaglen o Fargeinion Twf a roddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar waith yn y Senedd ddiwethaf.

Byddai'r darpariaethau yn y Bil yn rhai generig (i'w cymhwyso drwy orchymyn i awdurdodau cyfun penodol a'u hardaloedd) a byddent yn galluogi:

- Penodi maer etholedig ar gyfer ardal yr awdurdod cyfunol, a fyddai'n arfer swyddogaethau penodol ac yn cadeirio'r awdurdod.
- Y maer i ymgymryd â swyddogaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddu'r ardal.
- Lle bydd y maer yn cael swyddogaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddu, bydd y Bil yn caniatáu ymestyn tymor y Comisiynydd Heddlu a Throseddu presennol nes bydd y maer yn ei le.
- Tynnu'r cyfyngiad statudol cyfredol ar ei swyddogaethau (ar hyn o bryd mae'r rhain yn gyfyngedig i ddatblygu economaidd, adfywio, a thrafnidiaeth).
- Galluogi symleiddio llywodraethu awdurdodau lleol fel y cytunwyd gan gynghorau.

Mae'r prif ddarpariaethau yn gymwys i **Loegr yn unig**.

## *1.6. Bil Pleidlais am Oes*

Diben y Bil yw cael gwared ar y terfyn amser 15 mlynedd gyfredol ar hawliau pleidleisio dinasyddion Prydain sy'n byw dramor ar gyfer etholiadau seneddol y Deyrnas Unedig a Senedd Ewrop, gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr tramor.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Byddai'r Bil yn galluogi dinasyddion Prydain sy'n byw dramor i barhau i bleidleisio yn etholiadau'r Deyrnas Unedig dros 15 mlynedd ers iddynt fyw a chofrestru ddiwethaf yn y Deyrnas Unedig.

- Byddai'r Bil yn darparu ar gyfer cofrestru etholwyr tramor yn ddiogel a hygyrch.
- Byddai'r Bil yn cynnwys darpariaethau i'w gwneud yn haws i etholwyr tramor bleidleisio mewn pryd i gael eu cyfrif.

Mae'r etholfraint a chofrestru etholiadol ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig a Senedd Ewrop yn fater a gadwyd yn ôl (ledled y Deyrnas Unedig).

## *1.7. Cynigion ar gyfer Bil Hawliau Prydeinig*

Ni wireddwyd disgwyliadau y byddai Araith y Frenhines yn cynnwys Bil i **ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol** a'i disodli â Bil Hawliau Prydeinig. Yn lle hynny, nodwyd y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno cynigion am Fil Hawliau i gymryd lle'r Ddeddf Hawliau Dynol. Gellid cynnwys Bil o'r fath yn un o Areithiau'r Frenhines yn ddiweddarach yn y Senedd.

## *1.8. Pleidleisiau Lloegr ar gyfer Cyfreithiau Lloegr*

Nodwyd yn Araith y Frenhines

> My Government will bring forward changes to the Standing Orders of the House of Commons. These changes will create fairer procedures to ensure that decisions affecting England, or England and Wales, can be taken only with the consent of the majority of Members of Parliament representing constituencies in those parts of our United Kingdom.

Mae hwn yn ymrwymiad i weithredu **cynigion** a amlinellwyd gan y Ceidwadwyr cyn yr etholiad:

- Byddai **Ail Ddarlleniad** yn digwydd fel arfer gyda'r holl Aelodau Seneddol.
- Byddai camau Pwyllgor biliau Lloegr neu Gymru a Lloegr yn unig yn cael eu cymryd **mewn Pwyllgorau gan ASau o'r gwledydd hynny yn unig**, mewn cyfrannedd â chynrychiolaeth eu plaid yn Nhŷ'r Cyffredin. Byddai'r weithdrefn hon hefyd yn berthnasol i rannau o filiau Lloegr neu Gymru a Lloegr a oedd yn cynnwys cymalau perthynol i Gymru a Lloegr a Chymru yn unig, a chymalau ledled y Deyrnas Unedig.
- Byddai'r Cam Adrodd yn cael ei gymryd fel arfer gan yr **holl ASau.** Yna, byddai **Uwch-Bwyllgor** Lloegr (a Chymru) yn pleidleisio ar ôl y cyfnod Adrodd, ond cyn y Trydydd Darlleniad, ar **Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**. Gan hynny, byddai ASau Lloegr neu Gymru a Lloegr yn gallu rhoi eu caniatâd neu roi feto ar fil, neu rannau perthnasol ohono. Byddai penderfyniadau o'r fath yn cael yr un statws â rhai Senedd yr Alban ar faterion datganoledig.
- Ni allai Bil basio i **Drydydd Darlleniad** heb basio'r bleidlais cydsyniad deddfwriaethol. Byddai Trydydd Darlleniad yn cael ei gymryd fel arfer gan yr holl Aelodau Seneddol, ond dim ond pe bai'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei basio.

- **Gallai Uwch-bwyllgor Lloegr (a Chymru)** gael swyddogaethau eraill, gan gynnwys pennu dosbarthiad gwariant yng Nghymru a Lloegr, fel grantiau cyllid llywodraeth leol neu'r heddlu, a gallai hefyd ofyn cwestiynau ychwanegol i Weinidogion mewn adrannau sydd â swyddogaethau yn Lloegr yn unig.
- Gellid cymhwyso'r egwyddor o fod angen caniatâd gan Uwch-Bwyllgor Lloegr i lefelau trethi a budd-daliadau lles lle byddai'r cyfraddau cyfatebol wedi eu datganoli

Gellir diwygio, atal neu ddirymu Rheolau Sefydlog Tŷ'r Cyffredin drwy **un bleidlais fwyafrifol syml o Dŷ'r Cyffredin yn unig.**

# 2. Biliau eraill

## *2.1. Bil Banc Lloegr*

Dan y llywodraeth ddiwethaf, cynyddodd Canghellor y Trysorlys bwerau Banc Lloegr a phenododd Mark Carney fel y llywodraethwr cyntaf nad oedd yn hanu o Brydain. Bydd y Bil yn cael ei gynllunio i wneud y Banc yn fwy agored ac atebol a chrynhoi'n dynnach ei **gyfrifoldebau am bolisi ariannol, goruchwylio'r system ariannol a rheoleiddio.**

Bydd y Bil yn gweithredu argymhellion **adolygiad y llynedd** gan gyn fancwr canolog Unol Daleithiau America, Kevin Warsh, o sut mae polisi ariannol yn cael ei gynnal. Cynigiodd gael gwared ar y bwlch pythefnos rhwng penderfyniad ar gyfraddau llog a chyhoeddi cofnodion y cyfarfod, a fydd yn fwy manwl.

Bydd nifer y cyfarfodydd polisi ariannol yn cael ei dorri o 12 y flwyddyn i wyth, yn unol â'r arfer yng Ngwarchodfa Ffederal yr Unol Daleithiau. Bydd hanner y cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y cyd â phwyllgor polisi ariannol y Banc, sy'n goruchwylio sefydlogrwydd ariannol.

Mae'r Banc hefyd wedi cynnig diwygio ei lys llywodraethol i wneud iddo weithredu fel bwrdd cwmni cyhoeddus i oruchwylio'r Banc.

Caiff prif elfennau'r Bil eu cyhoeddi gan y Llywodraeth maes o law.

Byddai darpariaethau'r Bil yn berthnasol i'r **Deyrnas Unedig gyfan**.

## *2.2. Bil Rheilffordd Cyflymder Uchel (Llundain – Gorllewin Canolbarth Lloegr)*

Bydd y Bil yn darparu'r pwerau cyfreithiol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig adeiladu a gweithredu cam 1 rheilffordd Cyflymder Uchel 2 (HS2). Ar ôl dod yn Ddeddf, byddai'n rhoi caniatâd cynllunio tybiedig i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y rheilffordd rhwng Llundain a Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae prif elfennau'r Bil yn rhoi pwerau i Lywodraeth y Deyrnas Unedig **gaffael yn orfodol neu gymryd meddiant dros dro o'r tir sydd ei angen** ar gyfer y cynllun, ac adeiladu a gweithredu'r rheilffordd.

Byddai'r Bil yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig, ond mae'n **ymwneud â llwybr HS2 yn Lloegr**.

## *2.3. Bil Menter*

Noda Llywodraeth y Deyrnas Unedig mai diben y Bil yw annog busnesau drwy dorri biwrocratiaeth a'i gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfodau yn gyflym ac yn hawdd.

Prif elfennau'r Bil yw:

**Dadreoleiddio**

- Ymestyn targed uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer torri biwrocratiaeth i dalu am weithgareddau rhagor o reoleiddwyr er mwyn eu galluogi i gyfrannu at y targed dadreoleiddio.
- Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr fod yn fwy tryloyw drwy adrodd ar eu cydymffurfiaeth â gofynion statudol presennol o ran rheoleiddio’n well.
- Ymestyn y cynllun Prif Awdurdod i symleiddio rheoleiddio o amgylch y wlad.

**Gwasanaeth Cymodi Busnesau Bach**

Sefydlu'r Gwasanaeth Cymodi Busnesau Bach a fydd yn ymdrin ag anghydfodau rhwng busnesau heb yr angen am achos llys, gan fynd i'r afael yn benodol â materion talu’n hwyr.

**Taliadau Dileu Swyddi’r Sector Cyhoeddus**

Cyflwyno cap ar daliadau ymadael a wneir i weithwyr y sector cyhoeddus i roi terfyn ar daliadau ffarwelio chwe ffigur ar gyfer y gweithwyr sydd ar y cyflogau gorau yn y sector cyhoeddus.

**Ardrethi busnes**

- Cyflwyno diwygiadau i apeliadau ardrethi busnes, gan gynnwys addasu pwerau’r Tribiwnlys Prisio i ystyried apeliadau trethdalwyr.
- Caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio rannu gwybodaeth gyda llywodraeth leol i wella’r system ar gyfer llywodraeth leol a threthdalwyr.

Mae darpariaethau'r Bil yn gymwys i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Llywodraeth yn datgan y bydd yn ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ôl yr angen lle mae’r Bil yn ymdrin â materion sydd wedi eu datganoli.

## *2.4. Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyllid*

Nodwyd yn Araith y Frenhines: “Legislation will be brought forward to ensure…there are no rises in income tax rates, value-added tax or National Insurance for the next five years.”

Diben y ddeddfwriaeth yw:

- Sicrhau nad oes codiad mewn cyfraddau treth incwm, cyfraddau TAW na chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer unigolion, cyflogeion na chyflogwyr.
- Sicrhau nad yw terfyn enillion uchaf Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (y pwynt lle mae cyfradd cyfraniadau Yswiriant Gwladol Gweithwyr yn gostwng i 2%) yn

uwch na throthwy cyfradd uwch treth incwm (y pwynt lle mae treth incwm yn codi i 40%).

- Sicrhau na fydd unrhyw estyniad i gwmpas TAW.

Bydd darpariaethau'r ddeddfwriaeth yn gymwys i **Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

## *2.5. Bil Mewnfudo*

Nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth gyflwyno’r Bil yw rheoli mewnfudo.

Prif elfennau'r cymalau yw:

- Bydd y Bil yn pennu gweithio’n anghyfreithlon fel trosedd. Bydd yn caniatáu atafaelu cyflogau a delir i ymfudwyr anghyfreithlon fel elw troseddau.
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu creu un asiantaeth orfodi newydd a fydd yn delio â'r achosion gwaethaf o ecsbloetio. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i asiantaethau cyflogaeth recriwtio o dramor yn unig heb hysbysebu'r swyddi hynny ym Mhrydain ac yn y Saesneg.
- Cynhelir ymgynghoriad ar gyllido cynlluniau prentisiaeth ar gyfer gweithwyr o Brydain a'r Undeb Ewropeaidd drwy weithredu ardoll fisa newydd ar fusnesau sy'n defnyddio llafur tramor.
- Gwaharddiad cliriach ar fynediad at wasanaethau gan ymfudwyr anghyfreithlon, gan gynnwys mesurau i'w gwneud yn haws i droi allan mewnfudwyr anghyfreithlon a sicrhau bod banciau yn cymryd camau yn erbyn cyfrifon cyfredol sydd eisoes ym meddiant mewnfudwyr anghyfreithlon.
- Ymestyn yr egwyddor o "alltudio’n gyntaf, apelio’n ddiweddarach" o achosion troseddol yn unig i bob achos mewnfudo. Bydd hyn yn dileu hawl mewnfudwyr yn y wlad i apelio yn erbyn gwrthod cais hawliau dynol, ac eithrio mewn achosion lle bydd yn achosi niwed difrifol.
- Ei gwneud yn ofynnol i dagio pob troseddwr tramor a gaiff ei ryddhau ar fechnïaeth i atal achosion o ddianc ac i gynyddu nifer y troseddwyr sy’n cael eu halltudio.

Bydd y Bil yn gymwys i’r **Deyrnas Unedig gyfan**. Mae mewnfudo yn fater a gadwyd yn ôl.

## *2.6. Bil Eithafiaeth*

Bwriadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw cryfhau pwerau’r llywodraeth a gorfodi'r gyfraith i **fynd i'r afael ag eithafiaeth**.

Prif elfennau'r Bil yw:

- **Gorchmynion Gwahardd**: pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Cartref wahardd grwpiau eithafol.
- **Gorchmynion Amharu ar Eithafiaeth**: pŵer newydd ar gyfer gorfodi'r gyfraith i atal unigolion rhag ymddwyn yn eithafol.
- **Gorchmynion Cau**: pŵer newydd ar gyfer gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau lleol i gau eiddo a ddefnyddir i gefnogi eithafiaeth.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn bwriadu cymryd camau eraill i fynd i'r afael ag eithafiaeth:

- **Darlledu**: cryfhau rôl Ofcom fel y gellir cymryd camau llym yn erbyn sianelau sy'n darlledu cynnwys eithafol.
- **Gwiriadau cyflogaeth**: galluogi cyflogwyr i wirio a yw unigolyn yn eithafol a'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Bydd y Bil yn cwmpasu **materion a ddatganolwyd a materion a gadwyd yn ôl**.

## *2.7. Bil Plismona a Chyfiawnder Troseddol*

Bydd y Bil yn cyflwyno nifer o **ddiwygiadau i'r system cyfiawnder troseddol**.

Prif elfennau'r Bil yw:

**Mechnïaeth cyn cyhuddo**

- Creu rhagdybiaeth y bydd rhai dan amheuaeth yn cael eu rhyddhau heb fechnïaeth oni bai ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny.
- Byddai'r Bil yn cyfyngu ar fechnïaeth cyn cyhuddo i 28 diwrnod i ddechrau, gydag estyniad o hyd at dri mis, a awdurdodir gan uwch swyddog heddlu gydag estyniad y tu hwnt i dri mis mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a chyda chymeradwyaeth ynad.
- Byddai hyn yn cyflwyno arolygiaeth farnwrol o'r broses mechnïaeth cyn cyhuddo am y tro cyntaf.

**Ymdrin â phobl 17 oed dan *Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984***

- Byddai'r Bil yn sicrhau y byddai rhai 17 mlwydd oed sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn cael eu trin fel plant at bob diben dan y Ddeddf hon.

**Iechyd Meddwl a Phlismona**

Byddai'r Bil yn datblygu elfennau pwerau plismona'r Adolygiad o'r defnydd o adrannau 135 a 136 *Deddf Iechyd Meddwl 1983*, gan gynnwys:

- Gwahardd y defnydd o gelloedd yr heddlu fel mannau diogel ar gyfer rhai dan 18 oed a lleihau eu defnydd ymhellach yn achos oedolion;
- Lleihau'r uchafswm cyfnod presennol o gadw pobl yn y ddalfa, sef 72 awr; ac

- Ymestyn y pŵer i gadw dan adran 136 i unrhyw le ar wahân i gartref preifat.

**Pwerau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi**

Byddai'r Bil yn cynnwys newidiadau i bwerau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a fydd yn cryfhau ei hannibyniaeth ac yn ymestyn ei chylch gwaith i'w galluogi i roi sylwadau ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona yn ei gyfanrwydd mewn ffordd well.

Bydd y pwerau yn:

- Ymestyn cylch gwaith yr Arolygiaeth i gontractwyr a staff y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n cefnogi'r heddlu a chyflwyno swyddogaethau plismona;
- Rhoi pwerau i'r Arolygiaeth gaffael gwybodaeth gan drydydd parti;
- Ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu anfon copi o'u hymatebion i adroddiadau'r Arolygiaeth i'r Arolygiaeth;
- Rhoi pwerau i'r Prif Arolygydd gomisiynu archwiliadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn rhaglen gyhoeddedig yr Arolygiaeth; a
- Galluogi'r Prif Arolygydd i benodi Arolygwyr Cynorthwyol yr Heddlu.

**Uniondeb yr Heddlu**

Byddai'r diwygiadau yn sicrhau bod llygredd a chamymddwyn ymysg yr heddlu yn dod i'r amlwg a bod swyddogion yn cael eu dwyn i gyfrif am eu hymddygiad mewn modd sy'n deg ac yn dryloyw i'r cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys:

- Newidiadau i system ddisgyblu'r Heddlu
- Newidiadau i system gwynion yr Heddlu
- Diwygio deddfwriaeth sylfaenol i gymhwyso'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i Ffederasiwn yr Heddlu.
- Sicrhau Pwrpas Craidd Ffederasiwn yr Heddlu (sy'n adlewyrchu'r angen iddo weithredu er budd y cyhoedd) mewn deddfwriaeth.

**Amddiffyn Plant**

- Yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus, cyflwyno gwell amddiffyniad i blant, naill ai drwy ddiwygio dyletswyddau presennol, cyflwyno trosedd 'esgeuluso bwriadol' neu gyflwyno cynllun adrodd gorfodol.
- Cau'r bwlch cyfreithiol fel y gellir cosbi ffrydio byw cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn yr un modd ag y cosbir delweddau wedi eu recordio - sy'n golygu y bydd troseddwyr yn wynebu hyd at 14 mlynedd yn y carchar.

**Diwygio Cyfiawnder Troseddol**

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu ystyried pa newidiadau a allai fod yn angenrheidiol a bydd yn cyflwyno cynigion manylach maes o law.

Bydd y Bil yn cwmpasu materion datganoledig a rhai a gadwyd yn ôl.

## *2.8. Bil y Lluoedd Arfog*

Prif elfennau'r Bil yw:

- Cadw *Deddf y Lluoedd Arfog 2006* mewn grym, y byddai wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2016 fel arall.
- Symleiddio rhai prosesau cymhleth ynghylch y ffordd y mae personél y Lluoedd Arfog yn cael eu cyhuddo o droseddau.

Byddai darpariaethau sylweddol y Bil yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan a bydd yn darparu ar gyfer ei gyrhaeddiad y tu allan i'r Deyrnas Unedig i unrhyw un o Ynysoedd y Sianel, i Ynys Manaw ac i holl Diriogaethau Tramor Prydain drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.

## *2.9. Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol)*

Cyflwynwyd y *Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol)* yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 28 Mai 2015. Cafodd ei ail ddarlleniad ar 10 Mehefin 2015.

Byddai'r Bil yn diogelu elusennau rhag pobl sy'n peri risg o gamddefnyddio, ac yn rhoi pwerau newydd a llymach i Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr fynd i'r afael â chamddefnydd difrifol o elusennau. Byddai'r Bil hefyd yn rhoi pŵer cyfreithiol newydd i fuddsoddi eu harian mewn ffordd sy'n cynnig enillion ariannol ac yn hyrwyddo nodau'r elusen.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Byddai'r Bil yn ymestyn y meini prawf ar gyfer bod yn anghymwys yn awtomatig ar gyfer swydd ymddiriedolwr elusen, ac yn ymestyn anghymwyso i swyddi uwch reolwyr er mwyn diogelu elusennau'n well rhag y risg o gamddefnyddio.
- Byddai'r Bil yn cryfhau pwerau'r Comisiwn Elusennau, gan ei alluogi i:
    - Roi cyfarwyddyd bod elusen yn cael ei dirwyn i ben ar ôl ymchwiliad;
    - Cyhoeddi rhybuddion swyddogol i elusennau;
    - Anghymhwyso unigolyn sy'n anaddas i wasanaethu fel ymddiriedolwr elusen dan amgylchiadau penodol;
    - Mynd i'r afael â rhai bylchau a gwendidau ym mhwerau presennol y Comisiwn Elusennau.

Byddai'r bil drafft yn **ymestyn i Gymru a Lloegr**. Mae'r gyfraith elusennau a rheoleiddio yn fater datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## *2.10. Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cyllid)*

Diben y Bil yw rhoi **cymeradwyaeth y Deyrnas Unedig i agwedd gyllido saith mlynedd cytundeb Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd, a gytunwyd yn 2013**. Byddai'n dod â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i rym a elwir yn Benderfyniad ar sail Adnoddau *(Own Resources Decision)* a fydd yn gweithredu'r trefniadau cyllido ar gyfer cytundeb Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd dros saith mlynedd sy'n cwmpasu 2014-2020, fel y cytunwyd yn 2013.

Byddai'r Bil yn cymeradwyo penderfyniad unfrydol y Cyngor Ewropeaidd ar y system y bydd Aelod-wladwriaethau yn cyllido Cyllideb flynyddol yr Undeb Ewropeaidd dros y cyfnod o saith mlynedd sy'n cwmpasu 2014-2020.

Mae darpariaethau'r Bil yn ymestyn i **bob rhan o'r Deyrnas Unedig.**

## *2.11. Bil Cyflogaeth Lawn a Budd-daliadau Lles*

Nod y Bil yw cyflawni **ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i rewi prif gyfraddau nifer o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Budd-dal Plant, a gostwng lefel y cap budd-daliadau.**

Prif elfennau'r Bil yw:

**Rhewi budd-daliadau oedran gweithio**

- Byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn rhewi prif gyfraddau y rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gwaith, credydau treth a Budd-dal Plant am ddwy flynedd o 2016-17.
- Byddai pensiynwyr yn cael eu diogelu, yn yr un modd â budd-daliadau yn ymwneud â chostau ychwanegol anabledd.
- Byddai taliadau statudol, fel Tâl Mamolaeth, Tadolaeth a Thâl Mabwysiadu Statudol hefyd yn cael eu heithrio.

**Gostwng y cap ar fudd-daliadau**

- Byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn gostwng y cap budd-daliadau fel mai £23,000 fyddai cyfanswm y budd-daliadau y gall teulu nad ydynt yn gweithio ei dderbyn mewn blwyddyn.
- Mae cap ar £23,000 yn cyfateb i enillion teuluol gros o hyd at £29,000.
- Mae aelwydydd wedi eu heithrio lle mae rhywun yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith neu'n derbyn budd-daliadau sy'n ymwneud â chostau ychwanegol anabledd, neu Bensiwn Gweddwon Rhyfel.

**Dyletswyddau statudol i adrodd ar gynnydd**

Mae'r Bil yn cynnwys dyletswyddau statudol i adrodd ar:

- Gyflogaeth lawn: Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd statudol i adrodd ar gynnydd tuag at amcan Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflawni cyfradd gyflogaeth uchaf y G7.
- Prentisiaethau: Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd i adrodd yn flynyddol ar gynnydd ynghylch cwrdd â tharged Llywodraeth y Deyrnas Unedig o 3 miliwn o brentisiaethau newydd.
- Rhaglen Teuluoedd Cythryblus: Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd i adrodd yn flynyddol ar gynnydd y rhaglen Teuluoedd Cythryblus.

Yn ychwanegol, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu:

- Sefydlu Lwfans Ieuenctid newydd ar gyfer pobl ifanc 18-21 mlwydd oed gydag amod cryfach yn gysylltiedig â gwaith o'r diwrnod cyntaf. Ar ôl 6 mis, bydd yn ofynnol iddynt fynd ar brentisiaeth, hyfforddiant neu leoliad gwaith cymunedol;
- Tynnu'r hawl awtomatig i gymorth tai ar gyfer rhai 18-21 oed;
- Darparu cefnogaeth ymgynghorydd Canolfan Byd Gwaith mewn ysgolion ledled Lloegr i ategu cyngor ar yrfaoedd a darparu llwybrau at brofiad gwaith a phrentisiaethau.

**Cwmpas tiriogaethol**

*O ran rhewi budd-daliadau a chapio budd-daliadau:*

Byddai darpariaethau'r Bil yn gymwys i **Gymru, Lloegr a'r Alban, gyda disgwyl i Ogledd Iwerddon wneud trefniadau tebyg.**

*O ran y dyletswyddau statudol i adrodd:*

- Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i ystyried sut mae'n rhyngweithio â'u cyfrifoldebau.
- Byddai'r ddyletswydd i adrodd ar brentisiaethau yn berthnasol i Loegr yn unig.
- Byddai'r ddyletswydd i adrodd yn flynyddol ar gynnydd y rhaglen Teuluoedd Cythryblus yn berthnasol i Loegr yn unig.

## *2.12. Bil Undebau Llafur*

Nodwyd yn Araith y Frenhines: "My Government will bring forward legislation to **reform trade unions and to protect essential public services against strikes**."

Prif elfennau'r Bil yw:

**Diwygio Undebau Llafur**

- Cyflwyno trothwy pleidleisio 50 y cant ar gyfer pleidleisiau undeb (a chadw'r gofyniad am fwyafrif syml o'r pleidleisiau o blaid).
- Yn ychwanegol at drothwy lleiafswm y nifer a bleidleisiodd ar gyfradd o 50 y cant, cyflwyno gofyniad bod 40 y cant o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio yn gorfod pleidleisio o blaid gweithredu diwydiannol mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol penodol (iechyd, addysg, tân, trafnidiaeth).
- Mynd i'r afael â brawychu gweithwyr nad ydynt yn streicio yn ystod streic.
- Cyflwyno proses optio i mewn dryloyw ar gyfer elfen cronfa wleidyddol tanysgrifiadau undebau llafur. Bydd hyn yn adlewyrchu'r arfer presennol yng Ngogledd Iwerddon.
- Cyflwyno terfynau amser ar fandad yn dilyn pleidlais ar gyfer gweithredu diwydiannol.
- Gwneud newidiadau i rôl y Swyddog Ardystio.

**Cwmpas tiriogaethol:**

Mae darpariaethau'r Bil yn gymwys i **Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon**. Lle mae'r Bil yn delio â materion sydd wedi eu datganoli, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn datgan y bydd yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig yn ôl yr angen.

## *2.13. Bil Ynni*

Nodwyd yn Araith y Frenhines: "Measures will be introduced to **increase energy security**."

Prif elfennau'r Bil yw:

**Sefydlu Awdurdod Olew a Nwy**

- Byddai'r Bil yn sefydlu'r Awdurdod Olew a Nwy yn ffurfiol fel rheoleiddiwr annibynnol, a fyddai'n cymryd y ffurf cwmni llywodraeth, ac yn gyfrifol am stiwardiaeth asedau a rheoleiddio olew domestig ac adfer nwy.
- Byddai'r Bil yn trosglwyddo pwerau rheoleiddio presennol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i'r Awdurdod. Ni fyddai swyddogaethau rheoleiddiol yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r amgylchedd yn cael eu trosglwyddo.

- Byddai'r Bil yn rhoi pwerau ychwanegol i’r Awdurdod gan gynnwys mynediad at gyfarfodydd cwmni; caffael, cadw a throsglwyddo data; datrys anghydfod a sancsiynau.
- Byddai'r Bil yn cynyddu cwmpas ffioedd a thaliadau i dargedu costau'r Awdurdod yn agosach at y rhai sy'n cael budd uniongyrchol o'i wasanaethau a'i swyddogaethau.

**Cynlluniau Ffioedd ar gyfer Rheoleiddio Amgylcheddol Olew a Nwy Ar y Môr**

Byddai'r Bil yn cyflwyno darpariaethau mewn perthynas â ffioedd am wasanaethau’r rheoleiddiwr i'r diwydiant.

**Ynni Gwynt ar y Tir**

- Byddai'r Bil yn gwneud newidiadau deddfwriaethol i gael gwared ar yr angen i'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd ar gyfer ffermydd gwynt mawr ar y tir (dros 50MW).
- Byddai hyn, i bob pwrpas, yn datganoli pwerau allan o Whitehall drwy drosglwyddo'r pwerau cydsynio presennol, mewn perthynas ag ynni gwynt ar y tir, i awdurdodau cynllunio lleol.
- Bydd hyn yn golygu mai’r prif wneuthurwr penderfyniadau ar gyfer caniatadau ynni gwynt ar y tir yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol fydd yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu cefnogi gan newidiadau i'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i roi grym i ymrwymiad y maniffesto y dylai cymunedau lleol gael y gair olaf ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt.
- Ni fyddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar y gyfundrefn gynllunio yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Bydd yr ymrwymiad i roi terfyn ar y cymhorthdal newydd ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir yn cael ei ddarparu ar wahân, a bydd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn cyhoeddi mesurau i gyflawni hyn cyn bo hir.

**Cwmpas tiriogaethol**

*Gweithredu Adolygiad Wood*

Byddai'r darpariaethau o sylwedd yn gymwys i Gymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. At ddibenion gweithredu Adolygiad Wood, byddant yn gymwys i ddyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig a Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig. Bydd y darpariaethau yn parchu'r setliadau datganoli perthnasol.

Y bwriad yw y bydd trwyddedu archwilio tir ac echdynnu olew a nwy yn cael ei ddatganoli mewn perthynas â Chymru a'r Alban.

*Cynlluniau Ffioedd ar gyfer Rheoleiddio Amgylcheddol Olew a Nwy ar y Môr*

Mae materion olew a nwy ar y môr wedi eu cadw yn ôl. Mae'r cynigion yn berthnasol i holl ddyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig ac i Sgafell Gyfandirol y Deyrnas Unedig.

*Ynni Gwynt ar y Tir*

Ni fyddai'r newidiadau hyn yn berthnasol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Byddai'r newidiadau hyn yn berthnasol i Loegr. **Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried sut bydd hyn yn gymwys i Gymru yng nghyd-destun proses Dydd Gŵyl Dewi.**

**Byddai newidiadau a gynigir gan Gomisiwn Silk yn golygu y bydd Cymru yn cael y grym yn y dyfodol i benderfynu sut mae'n dymuno rheoli ceisiadau cynllunio ar gyfer ynni gwynt ar y tir hyd at 350MW.**

Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ar newidiadau i drefn cymorthdaliadau ffermydd gwynt ar y tir.

## *2.14. Bil Pwerau Ymchwilio*

Nodwyd yn Araith y Frenhines: "New legislation will **modernise the law on communications data**."

Mae amcanion y Bil yn cynnwys cryfhau gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth i ddatblygu cudd-wybodaeth a thystiolaeth lle mae gwrthrychau diddordeb, rhai dan amheuaeth a phobl sy'n agored i niwed wedi cyfathrebu ar-lein, a thargedu cyfathrebu ar-lein terfysgwyr. Mae'r Bil hefyd yn anelu at ddarparu ar gyfer trefniadau goruchwylio a mesurau diogelu priodol.

Prif elfennau'r cymalau yw:

- Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys pob pŵer ymchwilio, gan gynnwys data cyfathrebu, lle mae'r Llywodraeth wedi datgan ers tro bod y bwlch mewn galluoedd yn rhoi bywydau mewn perygl.
- Bydd y ddeddfwriaeth yn galluogi parhad targedu cyfathrebu terfysgwyr a galluoedd eraill.

**Lledaeniad tiriogaethol:**

Mae pwerau diogelwch a rhyng-gipio cenedlaethol yn faterion **a gadwyd yn ôl i Senedd y Deyrnas Unedig.**

## *2.15. Bil Sylweddau Seicoweithredol*

Nodwyd yn Araith y Frenhines: “New legislation will… **ban the new generation of psychoactive drugs**.”

Prif elfennau'r Bil yw:

- Byddai'r Bil yn ei gwneud yn drosedd cynhyrchu, cyflenwi, cynnig cyflenwi, meddu gyda'r bwriad o werthu, mewnforio neu allforio sylweddau seicoweithredol; hynny yw, unrhyw sylwedd a fwriadwyd ar gyfer pobl a allai arwain at effaith seicoweithredol. Saith mlynedd yn y carchar fyddai’r ddedfryd uchaf.
- Byddai sylweddau fel alcohol, tybaco, caffein, bwyd a chynnyrch meddygol yn cael eu heithrio o gwmpas y trosedd, yn yr un modd â chyffuriau rheoledig, a fyddai'n parhau i gael eu rheoleiddio gan *Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971*.
- Fel yr argymhellodd Panel Arbenigol Sylweddau Seicoweithredol y llynedd, byddai'r Bil yn canolbwyntio ar gyflenwi Sylweddau Seicoweithredol ac felly ni fyddai'n cynnwys trosedd meddiant personol.
- Bydd sylweddau penodol yn parhau i gael eu rheoli dan ddeddfwriaeth bresennol y *Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau* (gan gynnwys meddiant) lle gellir eu hadnabod a lle gellir asesu eu niwed yn ddigonol gan y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau.
- Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei chefnogi gan y gweinyddiaethau datganoledig, ac mae llywodraeth yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi eu hadroddiadau eu hunain yn galw am waharddiad cyffredinol.
- Byddai'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil - rhybuddion gwahardd a gorchmynion gwahardd (byddai torri'r gorchmynion yn drosedd) - i alluogi'r heddlu ac awdurdodau lleol i fabwysiadu ymateb cymesur i gyflenwi sywlweddau mewn achosion priodol.
- Byddai'r Bil hefyd yn darparu pwerau i atafaelu a dinistrio Sylweddau Seicoweithredol a phwerau i chwilio unigolion, adeiladau a cherbydau, yn ogystal â chael mynediad at safle drwy warant pe bai angen.

Byddai’r Bil yn cwmpasu’r **Deyrnas Unedig drwyddi draw.**

## 3. Biliau nad ydynt yn gymwys yng Nghymru

Mae'r Biliau a ganlyn yn gwneud darpariaethau mewn meysydd polisi sydd wedi eu datganoli, ac felly ni fyddent yn gymwys yng Nghymru.

- Bil Gofal Plant
- Bil Tai

  Nodir yn nodiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Araith y Frenhines:

  The legislation will cover England and Wales – but will initially be applied only to England. Any application to Wales will be a decision for the Welsh Government. The provisions relating to planning will apply only to England.
- Bil Addysg a Mabwysiadu
- Bil Bysiau
- Drafft o Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

